# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 19/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Presgripsiynau Am Ddim

**C9 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu presgripsiynau am ddim yng Nghymru? OAQ(3)1532(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fis Ebrill 2010 oedd trydydd pen-blwydd presgripsiynau am ddim yng Nghymru. Dileu ffioedd presgripsiynau yw un o brif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n fuddsoddiad mewn gwella iechyd yn yr hirdymor.

### Gwasanaethau Cardiaidd

**C10 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cardiaidd yng Nghymru? OAQ(3)1557(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol gynllunio, ariannu a darparu gwasanaethau cardiaidd yn unol â'r safonau a nodir yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar gyfer clefyd y galon.

### Dangosyddion Perfformiad GIG

**C11 Andrew RT Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddangosyddion perfformiad allweddol y GIG? OAQ(3)1529(HSS)

**Edwina Hart:** Mae dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u defnyddio ers sawl blwyddyn i asesu perfformiad GIG Cymru. Monitro perfformiad mewn partneriaeth â'r GIG yw'r ffordd gywir o sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn darparu gwasanaethau gofal iechyd amserol, ansawdd uchel a diogel i gleifion ledled Cymru gyfan.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1546(HSS), a chwestiwn 13, OAQ(3)1531(HSS),yn ôl.*

### Gwasanaethau Deintyddol GIG

**C14 Brynle Williams:** Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaethau deintyddol y GIG yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1548(HSS)

**Edwina Hart:** Mae wedi dod yn llawer haws i gleifion dderbyn gwasanaethau deintyddol y

GIG ers i’r contract deintyddol gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o broblemau penodol mewn rhannau o’r gogledd-orllewin ac yr wyf am weld rhagor o gynnydd o ran gwella mynediad at ofal deintyddol y GIG.

### Asbestos

**C15 Nick Ramsay:** Pa gefnogaeth sydd ar gael i’r rheini y mae clefydau sy’n ymwneud ag asbestos yn effeithio arnynt? OAQ(3)1524(HSS)

**Edwina Hart:** Mae GIG Cymru yn rhoi triniaeth a gofal i’r rheini sy’n dioddef o glefydau sy’n gysylltiedig ag asbestos. Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am daliadau iawndal. Nid yw iawndal yn faes sydd wedi’i ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Gwasanaethau Rheilffyrdd

**C9 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1499(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae gwasanaethau da ar y rheilffyrdd yn y gogledd ac yr wyf yn awyddus i ddatblygu’r rhain ymhellach. Mae fy nghynlluniau penodol yn cynnwys ymrwymiadau i wella dibynadwyedd, ansawdd a chyflymder y cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a’r de, fel y nodir yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

### Arloesi

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau sydd ar waith i hyrwyddo arloesedd yn economi Cymru? OAQ(3)1476(ECT) ***Trosglwyddwyd i’w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau.***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Mae gennym raglen o gymorth arloesedd busnes, gan gynnwys arbenigwyr lleol a gweithgareddau i ennyn diddordeb, a fydd yn canolbwyntio ar roi cymorth i annog arloesedd. Bydd rhaglen adnewyddu’r economi yn adeiladu ar hyn. Hefyd, cyhoeddais yn ddiweddar y caiff academi wyddoniaeth genedlaethol ei sefydlu i hybu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg ar bob lefel.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)1478(ECT), yn ôl.*

### Seilwaith Drafnidiaeth

**C12 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau i wella’r seilwaith drafnidiaeth yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(3)1477(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fy mholisïau i yw gwella dibynadwyedd, ansawdd a diogelwch ein seilwaith trafnidiaeth, yn ogystal â gwella trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cerdded a beicio.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)1472(ECT), cwestiwn 14, OAQ(3)1491(ECT), a chwestiwn 15, OAQ(3)1483(ECT), yn ôl*